

# Wele, cawsom y Meseia

*Darllenïadau, gweddiâu  
a geiriau o obaith yng  
nghyfnod Gŵyl y Geni*



# GENEDIGAETH IESU GRIST

MATHEW 2:18-25

Fel hyn y bu genedigaeth Iesu Grist. Pan oedd Mair ei fam wedi ei dyweddïo i Joseff, cyn iddynt ddod at ei gilydd fe gafwyd ei bod hi'n feichiog o'r Ysbryd Glân. A chan ei fod yn ddyn cyfiawn, ond heb ddymuno ei chywilyddio'n gyhoeddus, penderfynodd Joseff, ei gŵr, ei gollwng ymaith yn ddirgel. Ond wedi iddo gynllunio felly, dyma angel yr Arglwydd yn ymddangos iddo mewn breuddwyd, a dweud, "Joseff fab Dafydd, paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd y mae'r hyn a genhedlwyd ynddi yn deillio o'r Ysbryd Glân. Bydd yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau." A digwyddodd hyn oll fel y cyflawnid y gair a lefarwyd gan yr Arglwydd trwy'r proffwyd:

"Wele, bydd y wryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Immanuel",

hynny yw, o'i gyfieithu, "Y mae Duw gyda ni". A phan ddeffrôdd Joseff o'i gwsg, gwnaeth fel yr oedd angel yr Arglwydd wedi gorchymyn, a chymryd Mair yn wraig iddo. Ond ni chafodd gyfathrach â hi hyd nes iddi esgor ar fab; a galwodd ef Iesu.



## Y BUGEILIAID A'R ANGYLION

LUC 2:8-21

Yn yr un ardal yr oedd bugeiliaid allan yn y wlad yn gwarchod eu praid liw nos. A safodd angel yr Arglwydd yn eu hymyl a disgleiriodd gogoniant yr Arglwydd o'u hamgylch; a daeth arswyd arnynt. Yna dywedodd yr angel wrthynt, "Peidiwch ag ofni, oherwydd wele, yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl: ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd; a dyma'r arwydd i chwi: cewch hyd i'r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb." Yn sydyn ymddangosodd gyda'r angel dyrfa o'r llu nefol, yn moli Duw gan ddweud:

"Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd."

Wedi i'r angylion fynd ymaith oddi wrthynt i'r nef, dechreuodd y bugeiliaid ddweud wrth ei gilydd,

"Gadewch inni fynd i Fethlehem a gweld yr hyn sydd wedi digwydd, y peth yr hysbysodd yr Arglwydd ni amdano." Aethant ar frys, a chawsant hyd i Fair a Joseff, a'r baban yn gorwedd yn y preseb; ac wedi ei weld mynegasant yr hyn oedd wedi ei lefaru wrthynt am y plentyn hwn. Rhyfeddodd pawb a'u clywodd at y pethau a ddywedodd y bugeiliaid wrthynt; ond yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt. Dychwelodd y bugeiliaid gan ogoneddu a moli Duw am yr holl bethau a glywsant ac a welsant, yn union fel y llefarwyd wrthynt. Pan ddaeth yr amser i enwaedu arno ymhen wyth diwrnod, galwyd ef Iesu, yr enw a roddwyd iddo gan yr angel cyn i'w fam feichiogi arno.



## YMWELIAD Y SERYDDION

MATHEW 2:1-12

Wedi i Iesu gael ei eni ym Methlehem Jwdea yn nyddiau'r Brenin Herod, daeth seryddion o'r dwyrain i Jerwsalem a holi, "Ble mae'r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli." A phan glywodd y Brenin Herod hyn, cythruddwyd ef, a Jerwsalem i gyd gydag ef. Galwodd ynghyd yr holl brif offeiriaid ac ysgrifenyddion y bobl, a holi ganddynt ble yr oedd y Meseia i gael ei eni. Eu hateb oedd, "Ym Methlehem Jwdea, oherwydd felly yr ysgrifennwyd gan y proffwyd:

“ ‘A thithau Bethlehem yng ngwlad Jwda, nid y lleiaf wyt ti o lawer ymysg tywysogion Jwda, canys ohonot ti y daw allan arweinydd a fydd yn fugail ar fy mhobl Israel.’ ”

Yna galwodd Herod y seryddion yn ddirgel ato, a holodd hwy'n fanwl pa bryd yr oedd y seren wedi ymddangos.

Anfonodd

hwy i

Fethlehem gan

ddweud, “Ewch, a

chwiliwch yn fanwl am y plentyn,

a phan fyddwch wedi dod o hyd iddo,

rhowch wybod i mi er mwyn i minnau hefyd

fynd a'i addoli.” Wedi gwrando ar y brenin aethant

ar eu taith, a dyma'r seren a welsent ar ei chyfodiad yn

mynd o'u blaen hyd nes iddi ddod ac aros uwchlaw'r

man lle'r oedd y plentyn. A phan welsant y seren, yr

oeddent yn llawen dros ben. Daethant i'r tŷ a gweld y

plentyn gyda Mair ei fam; syrthiasant i lawr a'i addoli,

ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion,

aur a thus a myrr. Yna, ar ôl cael eu rhybuddio mewn

breuddwyd i beidio â

dychwelyd at Herod,

aethant yn ôl i'w gwlad

ar hyd ffordd arall.





## A HWY A GAWSANT Y DYN BACH

Ni wyddom am ddim rhyfeddach, - Crëwr

Yn crio mewn cadach,

Yn faban heb ei wannach,

Duw yn y byd fel Dyn Bach.

J. EIRIAN DAVIES

## NADOLIG

Ein dyled pob Nadolig - yw diolch

Yn dawel a diddig

Dan y Seren arbennig,

Addoli Duw heb ddal dig.

RHIAN Y DDÔL

## Y GENI GWYRTHIOL

Ganwyd y Mab o gnawd Mair – un nos oer

Tan y seren ddisglair,

Yn wyrth o Dduw o'r groth ddiwair

Yn y gwellt, Hwn oedd y gair.

JAMES NICHOLAS

## POPETH YN CYDSEFYLL

Aeth ein byd yn deilchion. A'r hyn sy'n digwydd i ddinasyddion byd a aeth yn deilchion yw na allant ganfod ystyr pethau. Dyma'r 'gwacter ystyr' y buom yn sôn gymaint amdano yn y chwedegau ... Ni fwriadwyd inni erioed wneud peth mor aruthrol â thywallt ystyr i'n bywyd briw. Y Newyddion Da yw mai yng Nghrist y mae popeth yn cydsefyll. Trwy eu cysylltiadau ag Ef y mae pob rhan o'n bywyd a'n Cread yn derbyn ystyr.

R. TUDUR JONES

## DAETH CRIST I'R BYD

Y mae fy holl ddiwinyddiaeth yn berwi lawr i hyn – daeth Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid.

ARCHIBALD ARNOLD

## LLE I GRIST

Nid oedd gŵr y llety'n elyniaethus, ond yr oedd ei westy a'i ddwylo a'i feddwl yn llawn. Dyma'r ateb y mae miliynau o bobl yn ei roi heddiw. Fel gŵr y llety, nid oes ganddynt le i Grist. Mae holl westai'r galon yn llawn o ddiddordebau eraill. Nid ymateb anghrediniol yw eu hymateb. Nid herio y maent. Maent wedi eu hargyhoeddi eu hunain y gallant fynd ymlaen yn ddigon da heb Gristnogaeth

BILLY GRAHAM

## MEIBION DUW

Daeth Mab Duw yn ddyn i alluogi dynion i ddod yn feibion Duw

C. S. LEWIS

## GOLEUNI'R BYD

Y mae carolau yn ein cyffroi. Y mae'r geiriau sanctaidd yn ein hysbrydoli. Y mae'r llewyrch a gwyd o'r preseb yn ein cynhesu. Y mae ychydig grefydd dros y Nadolig yn iawn. Ond y mae'r llewyrch yn y preseb yn codi o Oleuni'r Byd. Y mae'n datgelu drygioni, ac un ai'n ei waredu neu'n ei ddinistrio. Mae'r baban yn y preseb yn llawer iawn mwy na gwrthrych ocheneidiau sentimental. Mab Duw yw hwn, a rhaid ei dderbyn yn lywodraethwr – neu ei wynebu yn elyn.

JOHN G. STACKHOUSE

## Y PLENTYN IESU

Ni ddylem geisio'r plentyn Iesu yn ffigyrau prydferth ein Preseb Nadolig. Rhaid ei geisio ymhlith y plant llwglyd a aeth i'w gwllau yn y nos heb ddim i'w fwyta, ac ymhlith y bechgyn papurau newydd tlawd a fydd yn cysgu wedi'u gorchuddio gan bapurau newydd wrth ddrysau ein siopau.

ÓSCAR ROMERO

## WELE, CAWSOM Y MESEIA

Wele, cawsom y Meseia,  
cyfaill gwerthfawroca' 'rioed;  
darfu i Moses a'r proffwydi  
ddweud amdano cyn ei ddod:  
Iesu yw, gwir Fab Duw,  
Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.

Hwn yw'r Oen, ar ben Calfaria  
aeth i'r lladdfa yn ein lle,  
swm ein dyled fawr a dalodd  
ac fe groesodd filiau'r ne';  
trwy ei waed, inni caed  
bythol heddwch a rhyddhad.

Dyma gyfaill haedda 'i garu,  
a'i glodfori'n fwy nag un:  
prynu'n bywyd, talu'n dyled,  
a'n glanhau â'i waed ei hun:  
frodyr, dewch, llawenhewch,  
diolchwch iddo, byth na thewch!

DAFYDD JONES

## WELE'N GWAWRIO DDYDD I'W GOFIO

Wele'n gwawrio ddydd i'w gofio,  
geni Seilo, gorau swydd;  
wele ddynion mwyn a moddion  
ddônt â rhoddion iddo'n rhwydd:  
hen addewid Eden odiaeth  
heddiw'n berffaith ddaeth i ben;  
wele drefniad dwyfol gariad  
o flaen ein llygad heb un llen.

Duw a'n cofiodd, Duw a'n carodd,  
Duw osododd Iesu'n lawnd;  
Duw er syndod ddarfu ganfod  
trefn gollyngdod inni'n llawn:  
Duw ryfeddir, iddo cenir  
gan drigolion nef a llawr,  
tra bydd Iesu, fu mewn gwaelled,  
'n eistedd ar yr orsedd fawr.

Halelwia! Halelwia!  
Aeth i'r lladdfa yn ein lle;  
Halelwia! Halelwia!  
Duw sy'n fodlon ynddo fe:  
sain Hosanna i Fab Dafydd,  
Iesu beunydd fyddo'n ben;  
am ei haeddiant sy'n ogoniant  
bydded moliant mwy, Amen.

JOHN EDWARDS

## AR GYFER HEDDIW'R BORE

|                          |                           |
|--------------------------|---------------------------|
| Ar gyfer heddiw'r bore   | Caed bywiol ddwr Eseciel  |
| 'n faban bach            | ar lin Mair               |
| y ganwyd gwreiddyn Jesse | a gwir Feseia Daniel      |
| 'n faban bach;           | ar lin Mair;              |
| y Cadarn ddaeth o Bosra, | caed bachgen doeth Eseia, |
| y Deddfwr gynt ar Seina, | 'r addewid roed i Adda,   |
| yr Iawn gaed ar Galfaria | yr Alfa a'r Omega         |
| 'n faban bach            | ar lin Mair               |
| yn sugno bron Maria      | mewn côr ym Methlem Jwda, |
| 'n faban bach.           | ar lin Mair.              |

Am hyn, bechadur, brysia  
fel yr wyt,  
ymofyn am y noddfa  
fel yr wyt;  
i ti'r agorwyd ffynnon  
a ylch dy glwyfau duon  
fel eira gwyn yn Salmon  
fel yr wyt,  
gan hynny tyrd yn brydlon  
fel yr wyt.

EOS IAL

## O DEUED POB CRISTION

O deued pob Cristion i Fethlem yr awron  
i weled mor dirion yw'n Duw;  
O ddyfnder rhyfeddod, fe drefnodd y Duwdod  
dragwyddol gyfamod i fyw:  
daeth Brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd  
er symud ein penyd a'n pwn;  
heb le yn y llety, heb aelwyd, heb wely,  
Nadolig fel hynny gadd hwn.  
Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau Mair wiwlan,  
daeth Duwdod mewn baban i'n byd:  
ei ras O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn  
a throsto ef gweithiwn i gyd.

Tywysog tangnefedd wna'n daear o'r diwedd  
yn aelwyd gyfannedd i fyw;  
ni fegir cenfigen na chynnwrf na chynnen,  
dan goron bydd diben ein Duw.  
yn frodyr i'n gilydd, drigolion y gwledydd,  
cawn rodio yn hafddydd y nef;  
ein disgwyl yn Salem i ganu yr anthem  
ddechreuwyd ym Methlem, mae ef.  
Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau Mair wiwlan,  
daeth Duwdod mewn baban i'n byd:  
ei ras O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn  
a throsto ef gweithiwn i gyd.

## GWEDDI'R NADOLIG

Diolch i Ti, ein Tad, am dymor y Nadolig a Gŵyl y Geni  
pan gofiwn ac y diolchwn am y baban Iesu. Er nad oedd  
ond llety'r anifail yn gysgod i Mair a Joseff;

**Diolch i Ti am anfon Iesu i'n byd.**

Er nad oedd i'r baban ond preseb anifail yn grud;

Diolch i Ti, O Dad, am anfon Iesu i'n byd.

Am gân yr angylion uwch meysydd Bethlehem:

‘Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,  
ac ar y ddaear tangnefedd.’

**Derbyn ein diolch, nefol Dad.**

Am y bugeiliaid yn gwylio eu praidd liw nos

ac a aethant ar frys i weld y baban:

**Derbyn ein diolch, nefol Dad.**

Am y doethion a ddaethant o'r dwyrain

a'u hanrhegion o aur, a thus a myrr:

**Derbyn ein diolch, nefol Dad.**

Am y seren ddisglair a dywynnodd yn y ffurfafen

ac a arhosodd uwch-law'r lle'r oedd y baban Iesu:

**Derbyn ein diolch, nefol Dad.**

Plygwn ninnau, gyda'r doethion o'r dwyrain, gyda'r  
bugeiliaid o'r meysydd, yn sŵn cân yr angylion,  
ac yn ngoleuni'r seren lachar ac addolwn ninnau Grist  
o'r nef. Derbyn Di, O Dduw, ein bywydau, ein talentau,  
ein hamser; y cyfan a feddwn, fel y gallwn heddiw  
dystiolaethu amdano a'i addoli, nid yn unig ar adeg y  
Nadolig ond drwy bob dydd o'r flwyddyn. Amen.



## YN Y DECHREUAD

Yn y dechreuad yr oedd y Gair,  
a'r Gair oedd gyda Duw,  
a Duw oedd y Gair.  
Am hynny, Gair ein Duw ni a saif byth.

Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn:  
gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn.  
Ond Gair ein Duw ni a saif byth.

Nef a daear a ânt heibio.  
Ond Gair ein Duw ni a saif byth.

A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd,  
ac a drigodd yn ein plith ni.  
Iesu yw, gwir Fab Duw.  
Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.

Duw, wedi iddo lefaru lawer gwaith  
a llawer modd ...  
yn y dyddiau diwethaf hyn  
a lefarodd wrthym ni yn ei Fab.  
Iesu yw, gwir Fab Duw.  
Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.

Canys ganwyd i chwi heddiw  
Geidwad yn ninas Dafydd.  
Iesu yw, gwir Fab Duw.  
Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.

Ni ddaeth Mab y dyn i'w wasanaethu,  
ond i wasanaethu  
ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer.  
O deuwch ac addolwn Grist o'r nef!

Canys chwi a adwaenoch  
ras ein Harglwydd Iesu Grist,  
iddo ef, ac yntau'n gyfoethog,  
fyned er eich mwyn chwi yn dlawd.  
O deuwch ac addolwn Grist o'r nef!

Canys Mab y dyn a ddaeth i geisio  
ac i gadw yr hyn a gollasid.  
O deuwch ac addolwn Grist o'r nef!  
Amen

# GAN DDYMUNO TANGEFEDD Y NADOLIG I CHI



## Gobaith y Nadolig

Cyhoeddwyd gan Cyhoeddiadau'r Gair 2013  
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli,  
Gwynedd, LL53 6SH  
[www.ysgolsul.com](http://www.ysgolsul.com)

Golygydd Cyffredinol: Aled Davies  
Cysodi: Rhys Llwyd

Argraffwyd yn y Deyrnas Gyfunol  
Cedwir pob hawl.